Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL MAI 2018
3 Mai 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Geraint Strello, Mirain Llwyd Owen, Dafydd Iwan, Wynn Roberts, Mirain Llwyd Owen, Math Williams
Cadeirio: Erddyn Davies
Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Gwyneth Thomas, Emyr Williams, Ifor Dylan Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Ebrill 2018, ond bod angen newid yr adran datgan buddiant i adlewyrchu'n gliriach perthynas y Cynghorydd Ifor Dylan Williams a Chanolfan Bro Llanwnda..
Cynnig: Geraint Strello
Eilio: Wynn Roberts

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Problemau Traffig Llanfaglan

Mae SCCH yr Heddlu Ashley Jones wedi darparu gwybodaeth bellach o ran gwirfoddoli i fesur cyflymdra traffig gyda gwn cyflymder. Penderfynwyd gohirio'r eitem yma tan y mis nesaf gan nad oedd y Cynghorydd Ifor Williams, a awgrymodd y syniad yn wreiddiol, yn bresennol.

Mae bwriad gan Gyngor Gwynedd i wella'r arwyddion ar Lon Pant pan fydd gwaith yn ael ei weud yno nesaf.

4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd, yn cynnwys Cynllun Tan, Cawell Gwresogydd a Gwaith Trwsio

Mae Pwyllgor Y Ganolfan wedi cwblhau'r Cynllun Tan. Mae angen gosod arwyddion i nodi'r allanfeydd tan, fel ei bod hi'n glir be y dylid gadael yr adeilad mewn argyfwng.

Bydd angen prynu sicrhau fod y cawelli dros y gwresogyddion yn saff, a bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn gwneud hyn.

Bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn cyfarfod yn fuan hefyd er mwyn trafod sefyllfa ariannol Y Ganolfan a chynnal a chadw

4.3 Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Nid oes yn rhaid i Gynghorau Cymuned apwyntio Swyddog Prosesu Data Anibynnol, oherwydd newidiadau i'r Rheoliadau

4.4 Cadw Cymru'n Daclus

Cytunwyd mynd i gasglu swbriel ar Lon Eifion ar Ddydd Sul 10 Mehefin. Bydd y Clerc yn trefnu i gael yr offer angenrheidiol gan Gadw Cymru'n Daclus erbyn hynny.

4.5 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Cynhaliwyd protest yn diweddar oherwydd diffyg cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am y ffordd osgoi. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddant yn gwneud cyhoeddiad cyn diwedd Mai.

4.6 Ffosydd Lon Pant Llanfaglan

Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith o glirio'r ffosydd.

4.7 Darnau mawr o Sbwriel ar Y Foryd

Mae'r Clerc wedi gofyn i Gyngor Gwynedd glirio dau ddarn mawr sydd wedi ymddangos yn Y Foryd, ac mae hynny wedi ei wneud.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Ebrill 2018

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis
Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio £7.62 yn cynnwys danfon Ffurflen Flynyddol ar bost wedi ei recordio

5.3 Costau Teithio'r Clerc i Bwyllgor Un Llais Cymru Arfon Dwyfor , 15 mawrth 2018 ym mwllheli. 38 milltir x .45 = £17.10

5.4 Taliad Cyntaf Praesept 2018/19 25/04/2018 £8,250.00

5.5 Owain Bebb a'i Gwmni P60 2017/18 £156.00

5.6 Balans yn y Banc 1 Mai 2018 £20,250.60

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

- Clybiau Ieuenctid Gwynedd – Cymdeithas yr Iaith
- Vodafone Bontnewydd
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth, ac eithrio yn dilyn llythyr Cymdeithas yr Iiath am Glybiau Ieuenctid Gwynedd, fe benderfynwyd gwahodd yr Aelod Cabinet, Craig ab Iago i fynychu cyfarfod mis Mehefin er mwyn esbonio natur y gwasanaeth newydd a gweld pa gyfraniad fedrai Cyngor Cymuned Y Bontnewydd ei wneud tuag at y trefniadaU newydd.

8. MATERION ERAILL

8.1 Y Ffordd o Lanfaglan i Blas Llanfaglan

Mae hwn ar raglen waith Cyngor Gwynedd, ond ddim yn flaenoriaeth. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwbod pan fydd y gwaith yn cael ei wneud.

8.2 Prynu Blodau

Cytunwyd i roi £100 tuag at flodau er mwyn harddu'r ardal. Bydd y Cynghorydd Peter Garlick yn prynu'r blodau ac yn trenu iddynt gael eu gosod.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7 Mehefin 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Mai 2018

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Mai 2018